Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 154

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Llw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cadw Ein Cymunedau'n

**Crynodeb Gweithredol:**

Ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Adroddiad Trosedd 2019 y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, gan gynnwys:

1. trafod llw'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau gan Heddlu Dyfed-Powys i fodloni'r ymrwymiadau o fewn y Llw;
2. cymeradwyo a chefnogi'r ymgyrch ar gyfer adrodd am gam-drin bob amser yn lleol er mwyn sicrhau bod gweithwyr siop yn teimlo'n ddigon hyderus i adrodd am ddigwyddiadau a gwybod y byddant yn cael eu trin o ddifrif gan y Gwasanaeth; a
3. sicrhau bod y ddewislen Datrysiad Cymunedol yn cael ei adolygu yn ystod y newidiadau system dwy haen newydd ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys ac yn ystod datblygu'r gwasanaeth dargyfeirio.

Mae'r papur hwn yn ceisio ymrwymiad y Prif Gwnstabl tuag at hyrwyddo ymatebion effeithiol gan yr heddlu a phartneriaid i ladradau siop, ac ar ôl hynny, cymeradwyaeth y Comisiynydd i arwyddo Llw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn arwyddo llw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/12/19